

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn cwmpasu'r gwaith o fodelu sefyllfaoedd yn ystadegol lle mae newidyn ymateb yn dibynnu ar un neu ragor o newidynnau esboniadol: cwestiynau megis pa mor dda mae cleifion yn ymateb i driniaeth, gan ystyried eu hoedran a difrifoldeb y clefyd; neu sut mae gwahanol straeniau o fara gwenith yn cymharu pan gânt eu tyfu mewn amodau gwahanol. Gan gymryd dull gweithredu ymarferol, mae'r modiwl yn defnyddio problemau a data er mwyn ysgogi'r gwaith o ddadansoddi a dehongli. Cyflwynir adnoddau ystadegol, ac mae defnyddio pecyn meddalwedd ystadegol, GenStat (a gyflenwir) yn bwysig. Mae angen i fyfyrwyr feddu ar ddealltwriaeth dda o syniadau sylfaenol ystadegau, a gallu eu cymhwyso a dehongli'r canlyniadau.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad diweddar neu gyfredol mewn gwaith ystadegol cymwysedig, efallai mewn diwydiant, sefydliad ymchwil neu brifysgol
- safbwynt ystadegydd ymarferol o'r pwnc (yn hytrach nag un damcaniaethol)

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- bod yn gyfarwydd â'r pecyn meddalwedd ystadegol GenStat a brwdfrydedd i'w ddefnyddio
- profiad o diwtora un o fodiwlau ystadegol Y Brifysgol Agored.

*Gwybodaeth ychwanegol*

Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i wasanaeth TMA/EMA ar-lein y Brifysgol. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, mae'n debygol y bydd tasg cyn y cyfweiliad, a rhoddir rhywfaint o ganllawiau pellach ar farcio electronig. Bydd rhagor o wybodaeth a chyingor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	6
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	1
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	2
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.5